

Y Crist carismatig

“...arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth.” (adn. 49)

Beth am ddarlenn Luc 24:36–53 ac yna myfyrio

Yma, mae Iesu'n disgrifio'r Ysbryd y bydd yn ei roi yn nhermau “eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth” – delweddu a ddefnyddir yn yr Hen Destament am Gideon (Barnwyr 6: 34) a Samson (Barnwyr 14:6) pan fo Duw yn eu nerthu â'r Ysbryd. Pan ddaeth Eliseus i gymryd lle Elias, roedd yn gwisgo mantell ei feistr (2 Bren. 2:13). Nid rhyw guddwisg neu iwnniform oedd y fantell hon, ond roedd yn wirioneddol yn trosglwyddo'r gallu ysbrydol o feistr i'w was.

Yn rhyfeddol, yr olwg olaf a gafodd y disgyblion o Iesu wrth iddo esgyn oedd un ohono a'i freichiau ar led i'w bendithio! Mae bendith bob amser yn cael ei chysylltu ag eneniad yr Ysbryd Glân. Yn union fel offeiriad yr Hen Destament yn bendithio'r addolwyr (Aaron), fel penteulu'n bendithio ei deulu (Jacob), fel arweinydd yn bendithio cenedl (Moses), felly hefyd mae Iesu'n bendithio ei ddilynwyr. Mae'r dwylo oedd wedi eu hymestyn at wahangleifion ac wedi eu lleadaenu ar y groes, yn cael eu codi'n awr mewn bendith. Wedi hyn, mae'r disgyblion yn dychwelyd yn llawen i glodfori Duw yn y Deml, gan wybod y byddan nhw'n mynd i bobman i dystiolaethu i Grist o dan fendith eu Harglwydd dyrchafedig.

Fel y disgyblion cyntaf, boed i ni lawenhau ac ymhyfrydu yn y rhodd gyfoethog a pharhaus mae Iesu wedi ei rhoi i'w Eglwys. Mae ei ddwylo ar led uwch eich pen rŵan. Derbyniwch y fendith mae ef am ei rhoi i chi – nerth ei Ysbryd Glân.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

2 Sam. 23:1–5; Luc 3:15–18; Actau 4:23–33; 1 Cor. 2:1–10; 2 Cor. 3:17–18

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut cafodd Dafydd brofiad o Ysbryd yr Arglwydd?
2. Sut cafodd Paul brofiad o nerth yr Ysbryd?

Gweddi

O Dad, mae nghalon yn agored i ti. Beth bynnag sydd gennyf ar fy nghyfer, dw i'n ymestyn atat i'w dderbyn. Llanwa fi a nertha fi â'th Ysbryd Glân. Yn enw Iesu. Amen.